

Rhwystrau ar ffordd Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn Llwyddiannus

Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Raglen Gyda'n Gilydd Dros Newid Sir Benfro

26 Tachwedd 2020

1. Rhaglen Gyda'n Gilydd Dros Newid Sir Benfro yw'r fenter dan arweiniad y Trydydd Sector (Gofal Solfach, PAVS a PLANED) a ariennir gan Gronfa Etifeddiaeth COVID-19 Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gadw a chynnal y newidiadau cadarnhaol sydd wedi deillio o'r pandemig. Cychwynnodd y Rhaglen ym mis Mawrth 2020 a – thrwy weithio mewn partneriaeth – mae'n ceisio cynorthwyo adferiad a meithrin cydnerthedd cymunedol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y cyfeirir ati wedi hyn fel y Ddeddf). Rydym wedi cynnwys yn yr ymateb hwn rai o'r camau yr ydym wedi eu cymryd yn llwyddiannus i ddatblygu'r gwaith o gyflawni'r Ddeddf.
2. Rydym yn cytuno'n fras â chasgliadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei hadolygiad o gynnydd mewn gweithredu'r Ddeddf, fel y'u nodwyd yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, yn yr ystyr, er bod peth cynnydd wedi digwydd, bod yna lawer eto i'w wneud. Rydym yn ateb y 6 mater y mae'r ymgynghoriad yn holi yn eu cylch o'r safbwynt mai drwy adeiladu a chryfhau cymunedau a'r grwpiau cymunedol sy'n eu cefnogi y gellir gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus. Rydym yn defnyddio'r term 'cymunedau' yn yr ystyr ddaearyddol yn bennaf yn ein hymateb.
3. Rydym wedi ymdrin â phob elfen yn yr ymgynghoriad yn ei thro fel a ganlyn:
4. **(1) Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau.**
 - (a) Rydym wedi cynnal llawer o gyfarfodydd gyda grwpiau a rhwydweithiau cymunedol ar lawr gwlad yn ystod y pandemig i drafod eu profiadau, eu cynlluniau a'u hanghenion ar gyfer y dyfodol er mwyn cefnogi lles eu poblogaethau. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw gyfeiriad penodol yn cael ei wneud at y Ddeddf. Nid yw hynny'n golygu nad oedd eu hymatebion yn adlewyrchu'r dyheadau neu o leiaf agweddau ar y Ddeddf. Sefydliadau cyfryngol y Trydydd Sector, yn bennaf, oedd yn tynnu sylw at ddefnyddio'r Ddeddf fel fframwaith ar gyfer cynllunio.

- (b) Mae llawer wedi cael ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i natur arloesol y Ddeddf, ond nid yw'n ymddangos bod hyn wedi cyffwrdd ymwybyddiaeth y cyhoedd a grwpiau gweithredu cymunedol lleol.
- (c) Mae ein hymgyngoriadau â grwpiau cymunedol ac arweinwyr sectorau wedi dechrau gyda thrafodaethau penagored ar ddarparu modelau lles cymdeithasol a gwyrdd sy'n gynaliadwy. Y cam cyntaf yn y datrysiadau a nodwyd fu'r angen am gydweledigaeth a chydstrategaeth, ac mae Tîm y Rhaglen wedi ymgorffori'r Ddeddf wrth ddrafftio'r rhain. Caiff y dogfennau a luniwyd o ganlyniad eu trafod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Grŵp Cydgysylltu Adferiad Cymunedol Sir Benfro ac is-grwpiau cysylltiedig a grëwyd i ddatblygu agenda eang ar benderfynyddion lles.
- (d) Mae COVID-19 yn cynnig cyfle da i fynd i'r afael â'r Ddeddf mewn strategaethau sy'n bodoli eisoes a rhai yn y dyfodol. Mae cymunedau wedi ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i gefnogi anghenion pobl, ac mae'r sector cyhoeddus yn gyffredinol yn cydnabod bod gwir bartneriaeth â grwpiau lleol yn hanfodol er mwyn adeiladu dyfodol gwell. Rydym ni wedi dangos yn Sir Benfro sut y gellir harneisio'r datblygiadau cadarnhaol hyn ac adeiladu arnynt i gyflawni'r Ddeddf.
5. **(2) Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus i weithredu'r Ddeddf a pha mor effeithiol y cawsant eu defnyddio.**
- (a) Mae'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus, sydd eu hunain yn cynnwys gormod o haenau, wedi cael eu darparu drwy grantiau tymor byr a weinyddir yn ganolog. Mae'r cyrff sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch y grantiau wedi bod yn brin o gynrychiolaeth gymunedol, ac nid yw'r arian bob amser wedi cyrraedd grwpiau cymunedol rheng flaen, nac wedi cryfhau'n ddigonol y cyrff cyfryngol yn y trydydd sector sy'n gweithio mor effeithiol gyda hwy. Yn aml, mae prosiectau'n cael eu dyblygu, er eu bod yn cael enwau gwahanol. Ymhellach, nid ydynt bob amser yn cael eu gwerthuso ac felly ni ellir rhannu'r hyn a ddysgwyd oddi wrthynt. Mae'n rhaid cywiro'r sefyllfa hon.
- (b) Mae angen ailfeddwl sut i gyfeirio arian er mwyn cyflawni'r Ddeddf. Dylai mwy o'r cyllid gael effaith ar waith ymarferol lleol. Mae ein profiad ni ein hunain hefyd yn awgrymu y dylid dyrannu adnoddau i gefnogi darpariaeth y trydydd sector a'r sector cyhoeddus fel ei fod yn gydgyssylltiedig ac yn gydlynol. Mae'r Rhaglen Gyda'n Gilydd Dros Newid yn annibynnol ac mae wedi llwyddo i frocera gwaith partneriaeth gwirioneddol ymhlith y sectorau. Drwy gyflawni hyn, rydym wedi hwyluso cytundeb ar weledigaeth, tra'n darparu tystiolaeth ar gyfer cynllunio a ffordd ymlaen i weithredu er mwyn cefnogi a chynnal ymdrechion dan arweiniad y gymuned.

6. **(3) Y Cymorth a ddarparwyd i gyrff cyhoeddus gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.**

Mae'r Comisiynydd yn weladwy yn genedlaethol ond ni all – o ystyried ei hadnoddau cyfyngedig – ddarparu'r holl gymorth y mae ar gyrff cyhoeddus ei angen. Yng ngoleuni ein profiad ni, dylai cymorth o'r fath beth bynnag fod yn seiliedig ar anghenion lleol, dylai fod ar gael yn amserol ac yn lleol. Gobeithio, fodd bynnag, y bydd y ffordd o weithio, y mae llwyddiant yn dibynnu arni, yn symud o fod yn seiliedig ar brosiectau i gael ei phrif ffrydio, ac y bydd yn gwreiddio mewn sefydliadau a phartneriaethau.

7. **(4) Rôl Arweiniol Llywodraeth Cymru.**

(a) Nid ydym yn gweld bod gan y Ddeddf yr un statws na blaenoriaeth â deddfau eraill, er enghraifft, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid yw'r Ddeddf yn cael amlygrwydd, nac yn cael ei monitro'n ddigon manwl gan y Llywodraeth. Mae angen mynd i'r afael â hyn os oes bwriad gwirioneddol i gyflawni.

(b) Mae'r Ddeddf yn bolisi sy'n integreiddio gwahanol ffrydiau polisi'r Llywodraeth a byddai'n fuddiol cael Gweinidog yn gyfrifol am ei chyflawni.

(c) Ceir amrywiaeth mawr o ran ymgysylltiad Cynghorau Tref a Chymuned, a allai gael ac a ddylai gael mwy o rôl mewn prosesau a chamau gweithredu democrataidd lleol er mwyn symud y gwaith o gyflawni'r Ddeddf yn ei flaen. Mae hyn wedi creu diffyg democrataidd mewn rhai plwyfi, y mae angen i'r Llywodraeth fynd i'r afael ag ef, o bosibl drwy gynnig cymhellion.

(d) Mae angen symud adnoddau yn fwy tuag at atal; angen sydd wedi cael ei nodi dro ar ôl tro ond sy'n dal heb dderbyn sylw digonol.

8. **(5) Unrhyw rwystrau eraill ar ffordd gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, COVID, ac yn y blaen).**

(a) O ran rhwystrau, yn sir Benfro rydym wedi dangos bod leinin arian i COVID-19, sy'n gwrthio i'r amlwg yr angen i'r sectorau gydweithio mewn ffordd gydgyhyrchiol, a ffordd sy'n gynhwysol ac yn gyfarwydd ag anghenion cymunedau lleol.

(b) Mae rhwystrau ar ffordd gweithredu'r Ddeddf yn bodoli, ond rydym wedi gweld y rhwystrau hynny'n dechrau chwalu yn sir Benfro. Nid oes byth amser da i newid, ac yn enwedig pan fydd sefydliadau o dan bwysau na welwyd eu tebyg o'r blaen, ond nid yw cynnydd a newid yn fater o ddewis bellach.

(c) Rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus ddatblygu perthynas â chymunedau lle ceir mwy o ymddiriedaeth, ceisio deall eu hanghenion yn well, a gwneud

cydgynhyrchu yn rhan annatod o'r ffordd y maent yn gweithio. Mae hyn yn gofyn am newid diwylliant ar bob lefel, yn cael ei arwain mewn ffordd dryloyw ac amlwg gan arweinwyr sefydliadol. Ar y llaw arall, mae angen i'r cyhoedd weld y sector cyhoeddus mewn goleuni gwahanol a symud i ffwrdd oddi wrth berthynas drafodaethol â gwasanaethau i un o ddyfeisgarwch, annibyniaeth a chydlyniant.

- (d) Mae angen i'r Llywodraeth hyrwyddo gwirfoddoli mewn ffordd agored a chyson, gan gynnwys o'r gweithle. Byddai'n fuddiol iddi hefyd ddathlu gweithredu cymunedol, a pheidio â gadael materion o'r fath yn bennaf yn nwylo CGGC a sefydliadau ymbarél eraill yn y trydydd sector. Dylai'r Llywodraeth dynnu sylw at faterion blaenoriaeth ar gyfer gweithredu arnynt mewn ffordd integredig; blaenoriaethau y mae COVID-19 wedi eu hamlygu naill ai fel rhai nad ydynt yn gweithio'n dda mewn sefydliadau, neu sy'n gwaethygu'r anghydraddoldebau niferus sy'n endemig yn ein cymdeithas, yn enwedig, er enghraifft, mewn perthynas â gwybodaeth ddigidol ymarferol, cyflogaeth, hyd cadwyni bwyd, tai fforddiadwy ac wedi eu haddasu, ac argaeledd cludiant.
- (e) Mae angen polisi cenedlaethol ac ymdrech i drosglwyddo asedau lleol er mwyn bod o gymorth i gryfhau cymunedau, ac ymdrech hefyd i gaffael yn lleol er mwyn cynorthwyo economïau lleol.

9. (6) Sut i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol.

Drwy gydol ein hymatebion uchod, rydym wedi awgrymu camau gweithredu i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Mae ein hatebion ni yn cyfeirio at gydgyfrifoldeb ond gyda rhai awgrymiadau clir i'r Llywodraeth eu datblygu. Yn gryno, mae'r rhain yn ymwneud â chryfhau prosesau democrataidd lleol; dangos ymrwymiad i gyflawni'r Ddeddf; ac adolygu strwythurau a mecanweithiau ariannu er mwyn sicrhau bod y cyllid yn gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad.

10. Gobeithiwn fod yr adborth hwn wedi bod o gymorth drwy ychwanegu gwybodaeth ar gyfer trafodaethau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Rydym ar gael i gyflwyno manylion y dystiolaeth uchod os bydd angen.

Yr Athro Susan Denman (Arweinydd Gyda'n Gilydd Dros Newid)

Sue Leonard (Prif Swyddog, PAVS)

Iwan Thomas (Prif Weithredwr, PLANED)